Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir, a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn ddarostyngedig i graffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

4 Chwefror 2019

Cafodd yr offerynnau canlynol eu hystyried yn flaenorol i'w sifftio yn unol â Rheol Sefydlog 21.3B. Yn y broses sifft, cytunodd y Pwyllgor ym mhob achos mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau oedd y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bellach mae'r offerynnau yn ddarostyngedig i graffu arferol yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er bod gan yr holl offerynnau adroddiadau clir, maent hefyd yn cynnwys pwynt o ran rhinweddau i amlygu'r broses sifftio:

> **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn**

SL(5)310 – Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cywiro mân ddiffygion technegol yn Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd. Diben y cywiriadau yw sicrhau bod modd gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli tir a halogwyd yn ymbelydrol ar ôl gadael yr UE.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Fe'u gwnaed ar: 22 Ionawr 2019

Fe'u gosodwyd ar: 28 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar:

SL(5)313 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (Gweler pNeg(5)04)

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 18 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy ddileu cyfeiriad at 'Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus' oherwydd y bydd y cyfeiriad hwnnw yn ddiffygiol ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r offeryn yn darparu y bydd y termau sydd wedi'u diffinio ar hyn o bryd drwy gyfeiriad at Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu diffinio drwy gyfeiriad at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 o'r diwrnod ymadael ymlaen.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Fe'u gwnaed ar: 28 Ionawr 2019

Fe'u gosodwyd ar: 30 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar: